

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Lesley Griffiths AS

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

3 Medi 2021

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 ("yr Offeryn hwn").

Mae'r Offeryn hwn yn gwneud diwygiad i Reoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) ("Rheoliadau 2021") i ymestyn dileu'r gofyniad dros dro i baratodau cig a fewnforir o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AEE") i Gymru i gael eu rhewi'n ddwfn i dymheredd o -18°C tan 31 Rhagfyr 2021. Disgwylir i'r gofyniad hwn gael ei ddileu dros dro ar 30 Medi 2021. Mae'r Offeryn hwn yn gymwys i Gymru a daw i rym ar 29 Medi 2021.

Mae'n ofynnol i'r Offeryn hwn sicrhau aliniad â newidiadau a gyflwynir cyn bo hir gan Lywodraeth y DU i Reoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1666).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Caiff yr Offeryn hwn ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A (1) o Atodlen 2 i Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252). Mewnosodwyd paragraff 11A o Atodlen 2 gan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Gwelliant) (Ymadael â'r UE) 2020. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio i osod amodau mewnfario arbennig mewn perthynas â mewnfario cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid a fwriedir i'w bwyta gan bobl, gan roi sylw i sefyllfa iechyd anifeiliaid y wlad neu'r gwledydd dan sylw.

Mae angen yr Offeryn hwn i gyd-fynd â'r dull o ymdrin â rheolaethau mewnfario'r UE-GB a gynlluniwyd gan Lywodraeth y DU o 29 Medi 2021.

Heb yr Offeryn hwn, byddai'n anghyfreithlon i fasnachwyr fewnforio paratoadau cig oer o'r AEE, Ynysoedd Faroe, Yr Ynys Las neu'r Swistir o'r 1 Hydref 2021. Gallai hyn gael effaith andwyol ar fusnesau dethol a'r defnyddiwr terfynol yng Nghymru gan y gallai argaeledd cynhyrchion penodol fod yn gyfyngedig.

### **3. Cefndir deddfwriaethol**

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") yn cadw Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC sy'n ymwneud â mewnforio paratoadau cig fel deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Mae'r Offeryn hwn yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2021, a oedd yn ei dro yn addasu Erthygl 3.3 o Benderfyniad 2000/572/EC sy'n gosod amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystiad milfeddygol ar gyfer mewnforio paratoadau cig, gyda'r effaith o ddileu'r gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o'r AEE i gael eu rhewi'n ddwfn heb fod yn is na – 18 °C.

Gofynion masnach yng nghyfraith yr UE sy'n atal neu'n cyfyngu ar allforio a mewnforio nwyddau penodol o drydydd gwledydd yw gwaharddiadau a chyfyngiadau ("P&R") sy'n atal neu'n cyfyngu ar allforio a mewnforio nwyddau penodol o drydydd gwledydd, lle mae'r UE yn credu bod potensial iddynt gyflwyno lefel o risg i iechyd anifeiliaid, planhigion neu'r cyhoedd. Bydd yr Offeryn hwn yn ymestyn y gwaharddiad dros dro ar P&R ar baratoadau cig oer o wledydd yr AEE tan 31 Rhagfyr 2021.

Er mwyn sicrhau parhad ar ôl y cyfnod pontio, cyflwynodd Gweinidogion Cymru Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) ("Rheoliadau 2021") i ganiatáu mewnforio rhai cynhyrchion gwaharddedig o anifeiliaid yr effeithir arnynt gan P&R o'r AEE i Gymru rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021.

Ar 22 Mawrth 2021, gwnaed OS arall - Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/376 (Cy. 117)) – i ymestyn y gwaharddiad tan 30 Medi 2021. Roedd yn galluogi'r rheolau mewnforio presennol i fod yn berthnasol i baratoadau cig oer tan 30 Medi 2021 yn unol â'r 'dull gweithredu graddol' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i reoli mewnforio.

Mae dileu P&R dros dro ar baratoadau cig oer yn fesur cymesur i sicrhau parhad masnach gan fod y nwyddau hyn yn peri risg bioddiogelwch isel. Mae'r nwyddau hyn yn cael eu mewnforio ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch iechyd y cyhoedd ynghylch y cynhyrchion hyn, gan fod y DU a'r UE yn masnachu'r rhain yn rhwydd o fewn Marchnad Sengl yr UE.

#### **4. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth**

Ers diwedd y cyfnod pontio, bu'n rhaid i fusnesau ac awdurdodau cymwys fodloni gofynion newydd helaeth yr UE a'r DU wrth symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE. Mae llawer o fusnesau ac awdurdodau cymwys o'r fath yn wynebu heriau a phrinder adnoddau wrth baratoi ar gyfer newidiadau o'r fath mewn cyfnod byr, tra'n delio â'r ymateb i bandemig COVID-19.

Bydd yr Offeryn hwn yn ymestyn atal P&R dros dro ar baratodau cig oer o wledydd y AEE tan 31 Rhagfyr 2021, drwy ddiwygio rheoliad 3(1) o Reoliadau 2021. Bwriedir parhau i ddileu'r gofyniad hwn dros dro yn unol â'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnfurio fesul cam ar nwyddau sy'n cyrraedd o'r gwledydd hyn. Bydd hyn yn darparu dull cyson o fewnfurion ac yn atal tarfu ar fusnesau. Mae'r dull hwn yn peri risg bioddiogelwch isel gan fod y DU ar hyn o bryd yn mewnfurio'r nwyddau hyn o'r gwledydd hyn.

#### **5. Beth mae'r offeryn yn ei wneud**

Mae'r Offeryn hwn yn diwygio'r dyddiad a roddir yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2021 rhwng 30 Medi 2021 a 31 Rhagfyr 2021. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir gan DEFRA a Llywodraeth yr Alban, gan sicrhau cysondeb.

#### **6. Ymgynghori**

O ystyried natur frys y newidiadau hyn, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus; fodd bynnag, bu ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ledled Prydain gyda'r diwydiant Bwyd-Amaeth a chyda phartneriaid cyflenwi sydd â chyfrifoldebau dros reolaethau ar y ffin ar gyfer archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (fel awdurdodau ffiniau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwydydd), ers mis Ionawr 2021.

#### **7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol

cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Roedd swyddogion o'r farn bod hon yn sefyllfa eithriadol a brys. Mae angen i'r gwelliannau ddod i rym ar 29 Medi 2021 i sicrhau aliniad ledled y DU. Er bod disgrisiwn wrth i Weinidogion Cymru arfer pwerau statudol, byddai mabwysiadu ymagwedd wahanol o'r drefn mewnforn ledled Prydain a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn arwain at ddryswch i fasnachwyr ac yn amharu ar fasnach. Yn benodol, gallai nwyddau a fewnforir i'r DU wynebu gwahanol ofynion mewnfornio mewn gwahanol wledydd yn y DU, tra'n gallu symud yn rhwydd o fewn y DU ar ôl eu mewnfornio.